

Adnewyddu hysbysiad o statws trydydd parti cydnabyddedig

Nodiadau esboniadol ar lenwi ffurflen TP3

Bydd yr hysbysiad o drydydd partiön cydnabyddedig a gofrestrwyd gyda'r Comisiwn Etholiadol yn mynd yn ddi-rym 15 mis ar ôl dyddiad yr hysbysiad gwreiddiol. Mae'n ofynnol i drydydd partiön cydnabyddedig sydd am ymestyn eu hysbysiad ymhellach gyflwyno hysbysiad adnewyddu i'r Comisiwn. Dylid anfon yr hysbysiad hwn i'r Comisiwn o fewn y cyfnod sy'n dechrau un mis cyn ac sy'n dod i ben dri mis ar ôl dyddiad hysbysiad gwreiddiol trydydd parti cydnabyddedig.

Pwysig: mae'n ofynnol i drydydd parti cydnabyddedig y mae ei hysbysiad yn mynd yn ddi-rym yn ystod neu ar ddiwedd cyfnod a reoleiddir gyflwyno ffurflen gwariant a rhoddion i'r Comisiwn o hyd mewn perthynas â'r etholiad y mae'r cyfnod a reoleiddir yn ymwneud ag ef.

Mae pob nodyn yn cyfateb i adran wedi'i rhifo ar ffurflen TP3.

1 Manylion y trydydd parti cydnabyddedig

Nodwch enw a rhif cyfeirnod y trydydd parti cydnabyddedig.

2 Datganiad a llofnodion

Dilëwch y datganiad fel y bo'n berthnasol i nodi p'un a yw'r hysbysiad gwreiddiol heb newid, neu p'un a oes unrhyw fanylion cofrestredig wedi newid. Os oes unrhyw fanylion wedi newid, dylid rhoi'r manylion diwygiedig yn adrannau 3 a 4.

Mae'n rhaid i'r hysbysiad hwn gael ei lofnodi a'i ddyddio:

- yn achos unigolyn, gan yr unigolyn hwnnw;
- yn achos plaid gofrestredig, gan yr arweinydd a'r swyddog enwebu, (a, gan un o swyddogion ychwanegol y blaid os mai'r un unigolyn yw'r arweinydd a'r swyddog enwebu);
- ym mhob achos arall, gan ysgrifennydd y corff neu unigolyn sy'n gweithredu mewn rôl debyg (dylid nodi swydd yr unigolyn hefyd).

3 Newid i'r hysbysiad gwreiddiol

Nodwch pa fanylyn/fanylion canlynol y dylid ei/eu newid, os o gwbl:

- yr enw cofrestredig;
- y cyfeiriad cofrestredig;
- enw'r unigolyn cyfrifol (nid yw hyn yn berthnasol i drydydd partiön cydnabyddedig unigol);
- cyfeiriad yr unigolyn cyfrifol.

4 Y manylion diwygiedig

Defnyddiwch y blwch priodol i roi manylion y diwygiadau a nodwyd yn adran 3.

Dylid dychwelyd ffurflen TP3 i:

The Registration Team
Electoral Commission
3 Bunhill Row
London
EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 103 1928

Ffacs: 020 7271 0505

E-bost: partyreg@electoralcommission.org.uk

Gwefan: www.comisiwnetholiadol.org.uk

Pwysig: wrth drin hysbysiadau TP3, mae'r Comisiwn Etholiadol yn ymwybodol o ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

Adnewyddu hysbysiad o statws trydydd parti cydnabyddedig

Pwysig: darllenwch y nodiadau esboniadol atodol cyn cwblhau'r ffurflen hon.

1 Manylion y trydydd parti cydnabyddedig

Enw

Rhif cyfeirnod

2 Datganiad a llofnod

Rwyf drwy hyn yn hysbysu'r Comisiwn Etholiadol bod y trydydd parti cydnabyddedig a enwir uchod am adnewyddu ei hysbysiad o statws trydydd parti cydnabyddedig, yn unol ag adran 88 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Rwyf yn cadarnhau bod y datganiadau a geir yn yr hysbysiad gwreiddiol yn gywir o hyd (yn ddarostyngedig i'r diwygiadau a nodir yn adran 3 isod) (dilëer fel y bo'n berthnasol).

Llofnodwyd

Enw wedi'i brintio

Dyddiad
dd mm bbbb

Llofnod ychwanegol (pleidiau gwleidyddol cofrestredig yn unig)

Enw wedi'i brintio

Dyddiad
dd mm bbbb

3 Newid i'r hysbysiad gwreiddiol

Enw'r trydydd parti

Cyfeiriad y trydydd parti

Enw'r unigolyn cyfrifol

Cyfeiriad yr unigolyn cyfrifol

4 Y manylion diwygiedig

Enw'r unigolyn

neu Enw'r sefydliad

Cyfeiriad

Tref

Sir

Cod post

Enw'r unigolyn cyfrifol

Cyfeiriad

Tref

Sir

Cod post

At ddefnydd y Comisiwn Etholiadol

Dyddiad derbyn

dd

mm

bbbb

Gwiriwyd gan

Dyddiad cofnodi yn
yn y gronfa ddata

dd

mm

bbbb

Rhif cyfeirnod
ffeil

Dychwelwch y ffurflen hon i:

The Registration Team
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London
EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 103 1928

Ffacs: 020 7271 0505

E-bost: partyreg@electoralcommission.org.uk

Gwefan: www.comisiwnetholiadol.org.uk

Datganiad Preifatrwydd

Dim ond i gefnogi ein swyddogaethau statudol y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni. Byddwn yn gofalu am eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel a byddwn yn dilyn deddfwriaeth diogelu data. Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol amdanoch na'r wybodaeth bersonol y gallwch ddarparu am bobl eraill i unrhyw un arall, heblaw bod yn rhaid i ni yn ôl y gyfraith.

Y sail gyfreithiol i gasglu'r wybodaeth yn y ffurflen yma yw ei bod hi'n hanfodol i ni i gyflawni tasgau a wneir sydd ym mudd y cyhoedd ac i ymarfer awdurdod swyddogol fel y breinir yn y Comisiwn Etholiadol fel sydd yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a rheoliadau cysylltiedig â deddfwriaeth etholiadol arall.

Caiff peth o'r wybodaeth a gesglir yn y ffurflen hon ei dosbarthu yn ddata personol categori arbennig. Rydym yn ei brosesu am reswm diddordeb sylweddol y cyhoedd, ac mae ganddo sail mewn cyfraith y DU. I brosesu'r math yma o wybodaeth, ma'n rhaid i'r Rheolwr Data gael dogfen bolisi berthnasol sy'n dangos sut fydd y wybodaeth yn cael ei thrin.

Y Comisiwn Etholiadol yw'r Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data yw Jo Crofton-Diggins (dataprotection@electoralcommission.org.uk).

Mae'r hysbysiad preifatrwydd ar gael yn <https://www.electoralcommission.org.uk/cymru/privacy-notice> a gallwch ei ddarllen i weld sut ry'n ni'n prosesu data personol.